**GRŴP FFRAMWAITH IECHYD A LLES ANIFEILIAID CYMRU**

**Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ym Mharc Cathays, Caerdydd ar 3 Mawrth 2016**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Peredur Hughes | Cadeirydd |
| Christianne Glossop | Prif Swyddog Milfeddygol Cymru |
| Ifan Lloyd | |
| David Davies | |
| Moss Jones | |

**Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| Carol Harris | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Chris Hale | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Peter Wilson | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Terri Thomas | Pennaeth yr Is-adran Datblygu Gwledig |
| Dafydd Glyn | Cynllun Dileu BVD (Eitem 6 ar yr Agenda) |
| John Griffiths | Cynllun Dileu BVD (Eitem 6 ar yr Agenda) |
| Ian Jones | Cyflwyniad a thrafodaeth am y sector dofednod yng Nghymru (Eitem 7 ar yr Agenda) |
| Chris Poole | Cyflwyniad a thrafodaeth am y sector dofednod yng Nghymru (Eitem 7 ar yr Agenda) |

**Ymddiheuriadau**

Joanna Price

**<u>Eitem 1 ar yr Agenda:  Croeso</u>**

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i wythfed cyfarfod y Grŵp.  Esboniodd y Cadeirydd y byddai Dafydd Glyn a John Griffiths yn mynychu er mwyn rhoi diweddariad am y cynnig ynghylch BVD, ac y byddai Terri Thomas, Pennaeth yr Is-adran Datblygu Gwledig, yn mynychu er mwyn ateb cwestiynau am y broses o ymgeisio am gyllid RDP.  Yn ogystal, byddai Ian Jones a Chris Poole yn bresennol er mwyn rhoi trosolwg o'r sector dofednod yng Nghymru.

2. Dywedodd y Cadeirydd bod ymddiheuriadau wedi cyrraedd wrth Joanna Price. Ar ran y Grŵp, roedd yn dymuno llongyfarch Joanna ar gael ei phenodi yn Is-Ganghellor Prifysgol Amaethyddol Frenhinol Cirencester.

**<u>Eitem 2 ar yr Agenda:  Cofnodion a Phwyntiau Gweithredu o 2 Rhagfyr</u>**

3. Esboniodd y Cadeirydd bod y cofnodion terfynol a'r pwyntiau gweithredu a ddiweddarwyd o'r cyfarfod diwethaf wedi cael eu hanfon ymlaen mewn neges e-bost at Aelodau'r Grŵp fel rhan o'r papurau ar gyfer y cyfarfod hwn.

4. Cytunwyd ar y cofnodion.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Diweddariad gan y Cadeirydd**

5. Cafwyd y diweddariad canlynol gan y Cadeirydd;

- **Adolygiad Canol Blwyddyn o Gynllun Gweithredu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru –** Cyhoeddwyd yr Adolygiad Canol Blwyddyn ym mis Ionawr. Mae hon yn garreg filltir allweddol yn y flwyddyn ac mae'n dangos y cynnydd a sicrhawyd. Mae'r gwaith bellach yn mynd rhagddo er mwyn cynllunio ar gyfer blwyddyn 16/17.

- **Grwpiau Iechyd a Lles Gwartheg a Defaid –** Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu Gweithdy AMR y Grŵp Iechyd a Lles Gwartheg ar 14 Ionawr. Esboniodd mai'r neges allweddol a fynegwyd yn y gweithdy oedd yr angen i weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod gwrthfiotigau yn parhau i fod yn effeithiol ar gyfer pobl. Esboniodd Christianne bod gan bawb gyfrifoldeb i weithio ar hyn. Dywedodd ei bod yn hanfodol bod gweithgarwch cynllunio iechyd anifeiliaid yn gywir, a bod sefydlu cronfa o dystiolaeth a chytuno ar yr hyn y mae modd i ni ei wneud mewn gwirionedd yng Nghymru er mwyn gwneud gwahaniaeth yn fater allweddol yn hyn o beth. Dywedodd Moss bod Hybu Cig Oen ac Eidion Cymreig wedi mynegi diddordeb mewn cael cyllid RDP er mwyn datblygu cronfa ddata a fyddai'n cofnodi'r defnydd a wneir o wrthfiotigau. Esboniodd y byddai modd iddo drefnu bod Christianne yn cael arddangosiad o'r gronfa ddata. Awgrymodd Christianne y gallai fod modd ystyried practis milfeddygol penodol ac i'r ffermydd sy'n defnyddio'r practis hwnnw i ystyried y gwrthfiotigau sy'n cael eu presgripsiynu, o'u cymharu gyda'r ffordd y cânt eu defnyddio mewn gwirionedd. Dywedodd Ifan ei fod wedi mynychu Uwch-gynhadledd AMR y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol. Mater allweddol a drafodwyd oedd y ffaith bod ffermwyr yn defnyddio gwrthfiotigau pan nad oes angen iddynt wneud hynny efallai. Esboniodd ei fod wedi siarad gydag aelodau Cymdeithas Milfeddygon Ceffylau Prydain (BEVA) hefyd, y maent yn rhedeg cynllun sy'n ystyried bioddiogelwch. Dywedodd Christianne y gallai ystyried bioddiogelwch ceffylau ddatblygu'r gwaith sy'n cael ei wneud eisoes ynghylch bioddiogelwch, ac y dylid archwilio hyn. Nododd Moss bod angen sicrhau bod ffermwyr yn deall manteision gweithgarwch cynllunio iechyd anifeiliaid. Esboniodd Christianne bod potensial i wneud gwahaniaeth go iawn yn y maes hwn trwy ddangos dadansoddiad o'r gost/ budd. Esboniodd bod trafodaethau yn parhau gyda Chyswllt Ffermio am y gwasanaeth newydd a bod cael bioddiogelwch fel rhagamod er mwyn manteisio ar Wasanaeth Cyswllt Ffermio yn un dewis i'w ystyried. Mae'n bosibl y byddai modd datblygu modiwlau hyfforddiant penodol ynghylch AMR hefyd.

***Pwynt Gweithredu 1 > Ifan i ddarparu unrhyw fanylion am gynllun bioddiogelwch ceffylau BEVA.***

***Pwynt Gweithredu 2 > Christianne i drafod y cam o drefnu bod hyfforddiant bioddiogelwch yn rhagamod er mwyn manteisio ar Wasanaethau Cyswllt Ffermio gyda Thîm Cyswllt Ffermio, ynghyd â'r potensial er mwyn datblygu***

***offerynnau e-ddysgu ynghylch AMR.***

- Gofynnodd y Cadeirydd i Huw roi diweddariad am gyfarfod y Grŵp Iechyd a Lles Defaid a gynhaliwyd yn ddiweddar ar 4 Chwefror. Esboniodd Huw bod y prif drafodaethau wedi canolbwyntio ar y strwythur llywodraethu ar gyfer SHAWG. Yn ogystal, cafwyd trafodaeth ynghylch risg tafod glas, effaith toriadau i'r gyllideb a'r broses o gyflwyno'r Cynllun Datblygu Gwledig i Loegr. Esboniodd bod RDPE yn canolbwyntio ar y clafr, BVD a chynllunio iechyd anifeiliaid. Esboniodd y byddai cynhadledd SHAWG yn cael ei chynnal ar 16 Tachwedd.

- **Cyfarfod y pedwar Cadeirydd** – Esboniodd y Cadeirydd bod cyfarfod y Pedwar Cadeirydd gyda chadeiryddion Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi cael ei gynnal ar 1 Chwefror. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn dosbarthu'r cofnodion ar ôl iddynt gael eu cytuno. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 21 Medi yng Nghaeredin.

***Pwynt Gweithredu 3> Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu cofnodion cyfarfod y Pedwar Cadeirydd.***

- **Ymateb i ymgynghoriad yr Uned Gwarantin –** Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cyfraniadau i ymgynghoriad yr Uned Gwarantin, a gyflwynwyd ym mis Chwefror, a nododd bod y Grŵp yn edrych ymlaen at weld ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad maes o law.

- **Diweddariad am y Clafr –** Esboniodd Moss ac Ifan bod arolwg ynghylch nifer yr achosion o'r clafr yng Nghymru wedi wedi cael ei ddosbarthu i oddeutu 7,500 o ffermwyr defaid yng Nghymru. Cafwyd 650 o ymatebion hyd yn hyn. Bydd yr arolwg yn cael ei gynnal tan ddiwedd fis Mawrth. Roedd Hybu Cig Cymru, y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol ac Undeb Amaethwyr Cymru wedi cytuno cynnwys yr arolwg ar eu gwefannau. Esboniodd Ifan y dylai canlyniadau'r arolwg fod ar gael erbyn diwedd yr haf, ond y bydd yn cadarnhau'r amserlenni.

***Pwynt Gweithredu 4 > Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu Trydariad er mwyn hyrwyddo'r arolwg ynghylch y clafr.***

***Pwynt Gweithredu 5 > Ifan i gadarnhau'r amserlen er mwyn paratoi'r adroddiad am ganlyniadau'r arolwg.***

- **Egwyddorion y Sector Lles** – esboniodd y Cadeirydd bod trafodaethau gyda Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru (AWNW) yn symud yn eu blaen er mwyn cytuno ar flaenoriaethau a ffyrdd o weithio. Esboniodd bod y papur a ddarparwyd gan AWNW wedi cael ei drafod yn ystod cyfarfod cynllunio y Grŵp yr wythnos diwethaf. Cytunwyd bod diweddaru'r codau lles yn fan cychwyn da. Cytunwyd y byddai Ifan a Jo yn anfon eu sylwadau ymlaen i'r Ysgrifenyddiaeth, a fyddai'n drafftio ymateb ar gyfer AWNW. Yn ogystal, cytunodd y Grŵp y byddai o gymorth gwahodd Cadeirydd AWNW i'w cyfarfod ym mis Mehefin.

  ***Pwynt Gweithredu 6 > Jo ac Ifan i anfon ymlaen unrhyw ystyriaethau am***

***bapur AWNW i'r Ysgrifenyddiaeth. Yr Ysgrifenyddiaeth i ddrafftio ymateb ar gyfer AWNW***

***Pwynt Gweithredu 7 > Yr Ysgrifenyddiaeth i estyn gwahoddiad i Gadeirydd AWNW i gyfarfod nesaf Grŵp AHWF Cymru ym mis Mehefin.***

- **Ymgyrch Bioddiogelwch –** esboniodd y Cadeirydd bod Adroddiad yr Arolwg Bioddiogelwch wedi cael ei gyhoeddi ar 2 Mawrth. Yn ogystal, roedd y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r adroddiad. Y cam nesaf i'r Grŵp fydd ystyried y camau nesaf a argymhellir yn yr adroddiad.

- **Bwrdd Llywodraethu Goruchwylio Iechyd Anifeiliaid –** Esboniodd y Cadeirydd bod Dirk Pfeiffer, Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethu Goruchwylio Iechyd Anifeiliaid, wedi cael ei wahodd i fynychu cyfarfod Grŵp AHWF Cymru ym mis Medi er mwyn trafod rôl a pherthynas Grŵp AHWF Cymru a'r Bwrdd Llywodraethu Goruchwylio ymhellach. Yn y cyfamser, esboniodd y Cadeirydd ei fod wedi cael cyfarfod gyda Dirk Pfeiffer a Michael Seals, Cadeirydd Bwrdd Iechyd a Lles Anifeiliaid Lloegr. Cytunwyd y bydd ysgrifenyddiaethau pob grŵp yn rhannu agendâu ymlaen llaw. Yn ogystal, cytunodd y Grŵp y byddai o ddefnydd cysylltu â Nick Fenwick am ddiweddariad ynghylch gwaith y Bwrdd Llywodraethu Goruchwylio.

  ***Pwynt Gweithredu 8 > Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu â Nick Fenwick am ddiweddariad am y Bwrdd Llywodraethu Goruchwylio***

**<u>Eitem 4 ar yr Agenda: Diweddariad gan Brif Swyddog Milfeddygol Cymru</u>**

6. Cafwyd y diweddariad canlynol gan Christianne;

- **Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol –** Esboniodd Christianne y byddai Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael eu cynnal ar 5 Mai, ac mai diwrnod gwaith olaf y weinyddiaeth gyfredol fyddai 17 Mawrth. Yn ogystal, esboniodd y bydd cyfnod toriad pellach yn cael ei gynnal cyn y refferendwm ynghylch aelodaeth Prydain o'r UE. Esboniodd bod y ffocws ar faterion iechyd a lles anifeiliaid yn ystod cyfarfod olaf Pwyllgor yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy wedi bod ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid, brechu moch daear a lles anifeiliaid. Esboniodd y Cadeirydd y byddai'n cael cyfarfod gyda'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ar 16 Mawrth.

- **Cyllidebau 2016/17** – O ran y cyllidebau ar gyfer 2016/17, esboniodd Christianne bod gwaith yn cael ei wneud ar y rhain ar hyn o bryd, ac y byddai'n adrodd yn ôl i'r Grŵp yn ystod ei gyfarfod nesaf ym mis Mehefin.

  ***Pwynt Gweithredu 9 > Christianne i roi diweddariad am y cyllidebau ar gyfer 2016/17 yn ystod y cyfarfod nesaf.***

- **Penodi Uwch-swyddog Milfeddygol** - yn dilyn proses recriwtio allanol, cadarnhaodd Christianne bod Gavin Watkins wedi cael ei benodi yn Uwch-swyddog Milfeddygol yn Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol. Cytunwyd y dylid estyn gwahoddiad i Gavin fynychu'r cyfarfod nesaf. Esboniodd Christianne hefyd bod y gwaith yn parhau i archwilio cyfleoedd i fanteisio ar

gyngor milfeddygol penodol arall trwy'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), er enghraifft, iechyd gwenyn. Cytunodd Christianne y byddai hi'n rhoi dosbarthiad terfynol o'r gwaith milfeddygol i'r Grŵp ar ôl iddo gael ei gwblhau.

***Pwynt Gweithredu 10 > Christianne i roi dosbarthiad terfynol o'r gwaith milfeddygol i'r Grŵp ar ôl iddo gael ei gwblhau.***

***Pwynt Gweithredu 11 – Yr Ysgrifenyddiaeth i estyn gwahoddiad i Gavin Watkins fynychu'r cyfarfod nesaf.***

- **Strwythur APHA –** Esboniodd Christianne bod APHA yn symud yn ei flaen gyda rhaglen o newid sylweddol i'w strwythur uwch. Byddai hyn yn golygu y byddai angen i staff uwch (gan gynnwys milfeddygon) i fynd trwy broses asesu. Esboniodd ei bod yn parhau i gydweithio'n agos gydag APHA er mwyn sicrhau bod y strwythur newydd yn bodloni anghenion Cymru.
- **Ymarfer Cynllunio Wrth Gefn –** Esboniodd Christianne ei bod hi wedi mynychu ymarfer cynllunio wrth gefn a gynhaliwyd ar 16 Chwefror ar Faes Sioe Frenhinol Cymru. Cynhaliwyd yr ymarfer hwn gyda Chymdeithas Sioe Frenhinol Cymru, a'r sefyllfa a brofwyd oedd achos wedi'i gadarnhau o Glwy'r Traed a'r Genau yn Sioe Frenhinol Cymru. Esboniodd y bu hwn yn ymarfer defnyddiol iawn, ac mai'r neges allweddol yw bod yn rhaid i bawb gydweithio er mwyn lleihau'r risgiau gymaint ag y bo modd, gan atal hyn rhag digwydd.
- **Tafod Glas** – Esboniodd Christianne bod asesiad risg milfeddygol diwygiedig ynghylch tafod glas yn cyrraedd y DU wedi cael ei gyhoeddi yn ddiweddar. Esboniodd bod disgwyl i'r risg y byddai hyn yn digwydd godi rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2016. Esboniodd bod cyfrifoldeb ar y diwydiant i ystyried goblygiadau'r risg hwn, ynghyd â'r camau gweithredu y byddai modd iddynt eu cymryd er mwyn lleihau hyn.
- **Dangosfwrdd TB** – Cyflwynodd Christianne y fersiwn diweddaraf o'r Dangosfwrdd TB. Cytunwyd y byddai'r Grŵp yn cael ei hysbysu pan fyddai'r Dangosfwrdd TB yn cael ei gyhoeddi.

***Pwynt Gweithredu 12 > Yr Ysgrifenyddiaeth i hysbysu'r Grŵp pan fydd y Dangosfwrdd TB yn cael ei gyhoeddi.***

## Eitem 5 ar yr Agenda: Cyfraniad at Gynllun Gweithredu y Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid ar gyfer 2016/17 a'r camau nesaf

- Esboniodd y Cadeirydd bod yr Adolygiad Canol Blwyddyn o Gynllun Gweithredu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru wedi cael ei gyhoeddi ar 28 Ionawr a bod Grŵp AHWF Cymru wedi cynnal cyfarfod ar 25 Chwefror i drafod y blaenoriaethau ar gyfer cynllun gweithredu 2016/17.
- Esboniodd Carol bod yr ysgrifenyddiaeth yn paratoi cynllun amlinellol drafft ar hyn o bryd, i'w ystyried ymhellach gan y Grŵp. Esboniodd mai'r nod cyffredinol oedd cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2016/17 o hyd yn ystod yr haf, ond y gallai'r amserlen gael ei dylanwadu gan Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol.

***Pwynt Gweithredu 13 > yr Ysgrifenyddiaeth i baratoi cynllun amlinellol drafft i'w ystyried ymhellach gan Grŵp AHWF Cymru.***

**<u>Eitem 6 ar yr Agenda. Cynigion BVD</u>**

- Estynnodd y Cadeirydd groeso i Dafydd a John i'r cyfarfod er mwyn rhoi diweddariad am y cynigion ynghylch BVD. Yn ogystal, croesawodd Terri Thomas, Pennaeth yr Is-adran Datblygu Gwledig, a oedd yn bresennol er mwyn ateb unrhyw gwestiynau am y broses/amserlen er mwyn sicrhau cyllid trwy gyfrwng Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020.

- Ers y cymeradwywyd y Datganiad o Ddiddordeb, esboniodd John bod y gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i ddatblygu'r cais llawn am gyllid yn ystod ffenestr o chwe mis. Esboniodd y bu cyfle hefyd i fynychu digwyddiad er mwyn cyflwyno'r cynnig i ymgeiswyr eraill, er mwyn ystyried cyfleoedd i ddod ynghyd (pan fo hynny'n briodol) ar brosiectau. Esboniodd bod y gwaith o baratoi'r cais llawn ar fin cael ei gwblhau. Dosbarthir hwn i'r Grŵp cyn iddo gael ei gyflwyno.

***Pwynt Gweithredu 14 > John a Dafydd i anfon y cais BVD i Grŵp AHWF Cymru cyn ei gyflwyno yn derfynol.***

- Esboniodd Terri bod y broses ymgeisio yn gymhleth, ond bod ymdrechion wedi cael eu gwneud i sicrhau bod y broses mor syml ag y bo modd, gan fodloni gofynion y Comisiwn Ewropeaidd ar yr un pryd.

- Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai angen i'r holl geisiadau gael eu cyflwyno cyn y byddai'r gymeradwyaeth yn cael ei rhoi. Esboniodd Terri y byddai modd i sylw gael ei roi i'r ceisiadau cyn gynted ag y byddent yn cyrraedd. Amcangyfrifir ei bod yn cymryd 3 mis i gymeradwyo cais ar gyfartaledd, ac na fyddai Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn effeithio ar yr amserlen hon.

- Yn ogystal, cadarnhaodd Terri y byddai unrhyw geisiadau a gyflwynir ac y maent yn cyfeirio at faterion iechyd a lles anifeiliaid, yn cael eu hanfon i Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol er mwyn cael ei sylwadau.

- Esboniodd Terri bod Mark Alexander yn sefydlu gweithgor er mwyn ystyried mentrau strategol i'w hariannu trwy'r RDP. Byddai cynrychiolwyr o OCVO yn cael eu cynnwys yn y grŵp hwn.

- Holwyd Moss am oblygiadau ymgeisio am gyllid gan bod y cynnig BVD wedi cael ei rannu yn ddau gam. Cadarnhaodd Terri mai'r broses ar gyfer hyn yw y byddai angen cwblhau cais pellach ar gyfer Cam 2, a fyddai'n nodi bod canlyniadau Cam 1 wedi cael eu cyflawni.

- Wrth ystyried y gronfa ddata gynorthwyol, esboniodd Dafydd y byddai'n bwysig sicrhau bod gan gronfeydd data iaith gyffredin, fel bod modd iddynt gydgysylltu a

siarad gyda'i gilydd. Roedd Terri yn cytuno bod cydgysylltu cronfeydd data yn ystyriaeth allweddol.

**Eitem 7 ar yr Agenda: Cyflwyniad a trafodaeth am y sector dofednod yng Nghymru**

- Estynnodd y Cadeirydd groeso i Ian Jones a Chris Poole i'r cyfarfod. Esboniodd y ffaith bod y Grŵp wedi trafod yr angen iddynt gael trosolwg o'r sector dofednod yng Nghymru yn flaenorol, gan drafod ble y byddai modd i'r Grŵp gyfrannu neu gynorthwyo. Yn ogystal, esboniodd bod y Grŵp yn awyddus i gael dealltwriaeth o risgiau clefydau a'u rheolaeth, ynghyd â dealltwriaeth well o'r ffordd y mae'r sector yn gweithredu yng Nghymru.
- Cafwyd cyflwyniad gan Ian am y sector dofednod yng Nghymru, gan amlygu yn arbennig y ffaith ei fod yn faes busnes sy'n tyfu yn gyflym. Soniodd am y gwahanol sectorau o fewn y diwydiant dofednod gan gynnwys ieir bwyta, ieir dodwy, tyrcwn, adar hela, dofednod iard gefn a bridwyr colomennod a ffowls.
- Bu'r Grŵp yn trafod risg clefydau a lles. Cytunwyd y gallai lles a bioddiogelwch dofednod fod yn faes lle y gallai Grŵp AHWF Cymru helpu i godi ymwybyddiaeth, gan gael cyswllt gyda'r ymgyrch gyfredol ynghylch bioddiogelwch. Yn ogystal, cytunwyd y gallai'r Grŵp helpu i annog ceidwaid dofednod i gofrestru eu hunain ar Gofrestr ddofednod Prydain. Roedd y Grŵp yn cytuno y byddai modd i'r camau gweithredu hyn gael eu cynnwys yng Nghynllun AHWF Cymru ar gyfer 2016/17.

***Pwynt Gweithredu 15 > Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu ag Ian Jones er mwyn cynnwys adran am ddofednod yng Nghynllun Gweithredu AHWF Cymru ar gyfer 2016/17***

**Eitem 8 ar yr Agenda: Unrhyw Fater Arall**

- Yn ystod cyfarfod CHAWG a gynhaliwyd yn ddiweddar, esboniodd Dai y cafwyd cyflwyniad am geo-ffensio, a bod ymgais yn cael ei wneud i annog pobl i gofrestru ar gyfer hwn, oherwydd y gallai gynnig nifer o fanteision mewn perthynas â bioddiogelwch.
- Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu, gan gadarnhau y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 14 Mehefin a'r cyfarfod ar ôl hynny ar 13 Medi ym Mharc Cathays.

**GORFFEN**